

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Medi 13, 2022 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Gareth Ellis (Is-gadeirydd), Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Gwenan Owen, Eleri Jones, Llinos Rowlands. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Croesawyd Llinos Rowlands fel cynghorydd oedd yn ei chyfarfod cyntaf y Cyngor.

**1. Ymddiheuriadau:** Simon Evans (Cadeirydd), Geraint Rowlands.

Yn absenoldeb Simon Evans, cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth Ellis.

**2. Datgan diddordeb:**

Roedd Gwenan Owen yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.ch.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 12, 2022**

Cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer ac ailwyd gan Llinos Williams.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Gorffennaf 12, 2022**

Eitem 8.c. Llythyr ateb (18/7/2022) gan y Parc yn rhoi gwybod mae'r ddolen yn gywir ond mae nam ar eu gwefan ar hyn o bryd ac yn cael sylw. Mae testun yr e-bost wedi cael ei gywiro.

Eitem 11.b. Llythyr (24/8/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod:

1. mae gwaith torri gordyfiant sydd ar hyd ochrau ffordd Cwm Mynach wedi cael ei wneud
2. bydd Peiriannydd yn cael golwg ar y difrod sydd ar Pont Cwm Mynach
3. nid Cyngor Gwynedd sydd wedi ymgymryd y gwaith o arwyneb y ffordd wrth Hafod y Brenin (Shooting Box), Cwm Mynach.
4. bydd chwynladdwr yn cael ei ddefnyddio i ladd gwreiddiau y coed sy'n tyfu ar ochr yr hen bont bwa Llanelltyd. Bydd hyn yn atal y coed rhag ail dyfu.

Penderfynwyd anfon llythyr i Mrs Carys Redman, Glan Wern, Llanelltyd i ddiolch iddi am gysylltu â Cadw i wneud gwaith ar ochr yr hen bont bwa Llanelltyd. Roedd swyddogion Cadw a Priffyrdd wedi cael cyfarfod ynghŷn a'r mater.

**5. Materion Ariannol**

a. Bil (15/7/2022) am £192.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad tuag at wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2021/2022.

Talwyd y bil (21/7/2022).

b. Llythyr (30/7/2022) oddi wrth Cerebral Palsy Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

c. Siec am £856.00 oddi wrth Glyn Rees a’i Fab (1/8/2022). Taliad at Donald William Allen – claddedigaeth pellach.

ch. Bil (4/8/2022) am £600 oddi wrth John Arfon Owen am agor bedd yn y fynwent ar gyfer gwasanaeth dydd Mawrth, Awst 2, 2022.

Penderfynwyd talu’r bil.

d. Llythyr (17/8/2022) oddi wrth Gofal Canser Tenovus. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

dd. Derbyniwyd (26/8/2022) £110 oddi wrth I.B. Williams a’i Fab at osod beddfaen ar y diweddar Christopher John Rowlands ac Efrys Ann Rowlands.

e. Llythyr (26/8/2022) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £3,750 yn ein cyfrif ar 29/8/2022 Taliad am hanner blwyddyn.

f. Derbyniwyd (5/8/2022) £579.70 oddi wrth HMRC am ad-daliad TAW am y cyfnod 1/11/2019 - 31/1/2022.

ff. Llythyr (10/9/2022) oddi wrth Hospices Plant Tŷ Gobaith. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

g. Bil (11/9/2022) am £2,073.60 oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed am dorri gwair llwybrau cyhoeddus cymuned Llanelltyd. Roedd gwaith ychwanegol o dorri eithin ar lwybr uwchben Maes mawr. (Llynedd roedd y bil am £1,368.00)

Penderfynwyd talu’r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 13, 2022

h. Derbyniwyd (12/9/2022) £223 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab am ail agor bedd i gladdu gweddillion Henry David Walker o'r amlogfa.

Bil (12/9/2022) am £110 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab am gladdu'r llwch.

Penderfynwyd talu'r bil.

i. Balans yn y banc ar 29/7/2022: £9,941.91. (29/7/2021: £11,120.85).

j. Balans yn y banc ar 29/8/2022: £11,238.53. (29/8/2021: £14,743.05).

## **6. Archwilio**

a. Llythyr (2/8/2022) oddi wrth Archwilio Cymru yn gofyn am gopi gyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22 a manylion praesept ar gyfer 2021/22.

Rhodddwyd gwybod iddynt (2/8/2022) ni wnaethpwyd cyllideb. Rhodddwyd copi iddynt o fanylion y praesept.

Anfonwyd (4/8/2022) copi o'n cyllideb am 2022/2023 iddynt, fel oedd angen.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

a. Mae angen newid prisiau Mynwent Llanelltyd gyda Cyngor Gwynedd wedi newid y prisiau am 2022 – 2023.

Anfonwyd manylion o'r prisiau newydd i'r aelodau.

Penderfynwyd newid y prisiau.

b. Wrth wneud ymchwiliad lle i gladdu llwch, awgrymodd John Arfon Owen i glirio y tir sydd wrth y gwrych a'r giat uchaf i'r fynwent a'i hadu. Hefyd awgrymodd ymestyn y llwybr sy'n mynd ar hyd y wal ganol i baratoi agor beddi ar dir sydd ddim eto wedi ei ddefnyddio.

Penderfynwyd cael cyfarfod gyda Meurig Ashton, Geraint Rowlands a'r Clerc i drafod y mater yn y fynwent. Bydd angen cael pris os cytunwyd i wneud gwaith.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio. NP5/65/125D. Trosi ac addasu beudy yn llety gwyliau. Beudy Gelli-Rhydd, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (15/7/2022).

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 13, 2022

b. Cais cynllunio NP5/65/83A. Gosod 14 panel arae haul ar y ddaear o fewn cwrtil yr eiddo. Pandy Bach, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (16/8/2022).

c. Llythyr (28/7/2022 a 2/9/2022) yn rhoi gwybod am eu cyfarfod blynyddol gyda chynghorau cymuned a thref bydd yn cael ei gynnal gyda dewis o 25/10/2022 neu 27/10/2022 am 7.00 – 8.15yh. Amgáu mae agenda. Mae'r cyfarfod ar Zoom ac os am fod yn bresennol mae rhaid cofrestru gyda'r Parc.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Bydd Delyth Lloyd Williams yn y cyfarfod.

ch. Anfonwyd llythyr (25/8/2022) i'r aelodau yn rhoi gwybod sut i gael manylion ceisiadau cynllunio'r Parc:

Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllunio a Datblygu - Chwilio Ceisiadau Cynllunio - Chwilio Ceisiadau Cynllunio - Cyfeirnod cynllunio: NP5/.../... - Chwilio - NP5/.../...  
Rydych wedi dod at fanylion y cais.

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (14/7/2022) oddi wrth gynrychiolydd Liz Saville Roberts AS yn rhoi gwybod mae Liz Saville Roberts wedi trefnu i gyfarfod cynrychiolwyr o Gwmni Alba Mineral Resources wrth y chwarel ym Montddu ddydd Gwener, Medi 30 2022, am 10am tan 12yp. Bydd Mabon ap Gwynfor AS, Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn bresennol. Mae gwahoddiad i gynrychiolydd / gynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned i ymuno yn ogystal. Mae angen gwybod os bydd rhywun ar gael i fynychu'r cyfarfod.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Rhoddwyd gwybod iddynt (29/7/2022) bydd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths, Cyng. Elfed ap Gomer, Cyng. Simon J. Evans a Cyng. Gareth Ellis yn bresennol yn y cyfarfod.

b. Llythyr (25/7/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau ym mis Awst.

c. Llythyr (29/7/2022) oddi wrth Pennaeth Priffyrrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Timau Tacluso Ardal Ni. Mae gweithlu wedi ei sefydlu ac yn awyddus derbyn ceisiadau am waith sydd angen ei wneud i lanhau a thacluso'r gymuned. Bydd angen roi'r ceisiadau trwy <http://www.gwynedd.llyw.cymru/timtacluso>

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 13, 2022

ch. Llythyr (30/8/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Arfer Arloesol bydd yn cymryd lle ar ddydd Mawrth Medi 14, 2022 am 10.00yb – 5.00yh. Bydd y Cynhadledd ar Zoom. Amgáu mae agenda ffurflen archebu.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (12/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r cyfarfod wedi cael ei gohirio tan fis Hydref oherwydd amgylchiadau presennol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (25/8/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith:

a. clirio coed sy'n tyfu allan o Hen Bont Llanelltyd.

b. rhoi camfa a giat i gerddwyr ar lwybr cyhoeddus ger Ffridd Ddu a Gerddi Gleision, Bontddu.

dd. Llythyr (6/8/2022) oddi wrth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â 'Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd' ac yn rhoi gwybod bod yr holiadur ar agor tan ddiwedd Medi 30, 2022. Amgáu mae manylion yr ymgynghoriad.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd llythyr a manylion am yr ymgynghoriad ar 27/6/2022. Gweler Cofnodion Gorffennaf 12, 2022.

Derbyniwyd ymoliad (20/7/2022) gan Susan Townsend, Cesailgwm Mawr, Taicynhaef am fanylion llwybr oedd yn mynd heibio ei thŷ. Rhoddwyd y wybodaeth iddi ac awgrymwyd iddi wneud ymholiadau ag Adran Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd.

e. Llythyr (6/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh dydd Mercher Medi 14, 2022 ar Zoom. Amgáu mae'r Agenda, Cofnodion Cyfarfod 29/6/2022 a Chofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 29/6/2022. Amgáu gyda'r llythyr mae link Zoom.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

f. Llythyr (9/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod ni fydd Cynhadledd Arfer Arloesol, digwyddiadau hyfforddiant na Chyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a drefnwyd. Mae hyn oherwydd cyfnod o alaru yn dilyn marwolaeth y Frenhines Elizabeth II.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 13, 2022

ff. Llythyr (9/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod, yn unol ag Operation London Bridge mater i gynghorau lleol unigol yw penderfynu gohirio cyfarfodydd oherwydd marwolaeth EM Y Frenhines Elizabeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw.

g. Llythyr (9/9/2022) oddi wrth Cymhorthydd Personol i'r Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd yn amgau canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod galar cenedlaethol Ei Mawrhydi Elizabeth II.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

**10. Adroddiad Cynghorvdd Gwynedd Mrs Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (14/8/2022) oddi wrth Delyth gyda dogfen 'Diweddariad maes ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr (Haf 2022)'. Mae'r ddogfen yn rhoi manylion mae Llywodraeth Cymru, yn cyd-weithio gyda Cyngor Gwynedd, i gael rheolaeth well ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr ar faterion cynllunio, trethi a thrwyddedu. Bydd hyn yn gwella sefyllfa i bobl leol cael cartrefi fforddiadwy yn eu cymuned.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (26/8/2022) oddi wrth Delyth gyda gwybodaeth am gyrsiau Un Llais Cymru bydd yn cael eu cynnal mis Awst / mis Medi.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (8/9/2022) oddi wrth Gweithiwr Cymorth Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid, Dalgylch Ysgol Godre'r Berwyn ac Ysgol Bro Idris. Maent angen llogi neuadd bentref am gyfnod o wythnosau i gael nosweithiau gweithgareddau i bobl ifanc .

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Mae Delyth wedi cyfarfod a Llio (y Swyddog) ac yn gobeithio bydd y Cyngor Sir yn rhoi bob cefnogaeth iddi gynnal clybiau ieuenctid traddodiadol a syniadaeth newydd yn yr ardal. Mae swyddi heb ei llenwi ar gyfer rhai i weithio yn y clybiau ieuenctid (rhai oriau bob wythnos yn y nos). Os oes gan rywun wybodaeth am unigolion sydd eisiau ceisio am y swyddi?

Anfonodd Delyth ei sylw i'r aelodau.

c. Mae Cyngor Gwynedd yn lansio 'Cynllun Prynu Cartref Gwynedd' i helpu pobl Gwynedd i brynu tŷ ar y farchnad agored. Gellir benthg rhwng 10% a hyd at 50% o werth yr eiddo.

ch. Bydd cwmni Seashells yn cynorthwyo Cyngor Gwynedd i roi gwasanaeth gofal i'r henoed yr ardal yn eu cartrefi.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 13, 2022

- d. Mae cwynion am campervans yn aros wrth yr hen bont Llanelltyd. Mae bwriad gan y Parc i osod arwyddion i atal parcio'r campervans.
- dd. Mae swyddogion Cyngor Gwynedd am roi sylw i oryrru sy'n digwydd ar y ffordd trwy Bontddu.
- e. Mae cynllun i roi llinellau dwbl ar y ffordd sy'n arwain i Swn y Nant, Bontddu.
- f. Bydd y Cyngor yn hysbysebu am 52 o swyddogion i ysgolion meithrin.
- ff. Mae angen rhoi fwy o sylw i wella'r ffordd A496 wrth Bryn Melyn, Taicynhaeaf.
- g. Mae angen cywiro golau melyn sydd ar y ffordd yn mynd heibio Ysgol Llanelltyd.

**11. Materion Brys**

- a. Mae ceiliog yn cadw swm pob diwrnod yn Llanelltyd pan mae'n gwawrio.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd iddynt roi sylw i'r mater.

- b. Mae cwyn gan rieni Bontddu bod plant yn gwlychu, wrth iddi lawio, wrth aros am fws ysgol ar y safle bysus sydd wrth Bontddu Hall; nid oes lloches fysis ar y safle. Rhoddwyd y cwyn i Cyngor Gwynedd ac awgrymodd y Cyngor i ddod a'r mater i sylw y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd i Delyth gwneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd i gael lloches fysis ar y safle. Gyda lleoliad y safle yn gyfyng roedd syniad torri i fewn i'r tir i wneud lle i'r lloches. Y Cyngor sy'n berchen y tir.

- b. Mae'r aelodau angen gwybod pa lwybrau sy'n cael eu trin gan y Cyngor.

-----